**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Mawrth 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-880 Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth**

Diolch am eich llythyr ar 9 Mawrth ynghylch y ddeiseb uchod.

Fel yr amlinellwyd yn eich llythyr, aeth y Gweinidog Addysg i gyfarfod y Pwyllgor ar 16 Ionawr er mwyn trafod yr Astudiaeth Dichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth. Comisiynwyd yr Astudiaeth Dichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad yn 2018 ynghylch ariannu addysg cerddoriaeth yng Nghymru a gwella mynediad ati.

Yn dilyn y cyfarfod ar 16 Ionawr, roeddem o'r farn bod y cynnydd a wnaed o ran yr Astudiaeth Dichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd. Yn wyneb hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn amlinellu'r pryder hwnnw a cheisio gwybodaeth bellach.

Cawsom ymateb i'r llythyr hwn ar 28 Chwefror, a buom yn ei ystyried yn ein cyfarfod ar 5 Mawrth. Yn ôl y llythyr, cynhaliwyd cyfarfod â rhanddeiliaid mewn gwasanaethau cerddoriaeth ar 29 Ionawr, gan roi'r cyfle iddyn nhw gynnig adborth ar yr Astudiaeth Dichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth ac ystyried y camau nesaf. Yn ôl y Gweinidog, mae swyddogion Llywodraeth

Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw, a byddant yn gallu diweddaru'r Pwyllgor unwaith y bydd yr adborth a gafwyd wedi'i werthuso'n llwyr.

Yn ein cyfarfod, gwnaethom gytuno i fonitro'r cynnydd a wneir ac ysgrifennu at y Gweinidog i gael diweddariad pellach, pan fydd cyfarfod nesaf y rhanddeiliaid mewn gwasanaethau cerddoriaeth wedi cael ei gynnal.

Yn gywir,

Helen Mary Jones AC

**Cadeirydd y Pwyllgor**